

Cadeirydd y Cyngor
Chairman of the Council
Y Cyngorydd / Councillor Simon Glyn



Gofynnwch am/Ask for: **Eirian Roberts**
 (01286) 679018 Ein Cyf / Our Ref: ER
 (01286) 671072 Eich Cyf / Your Ref:
E-bost / E-mail: eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng, AS
Ysgrifennydd Gwladol Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth
Ddiwydiannol
1 Victoria Street
Llundain. SW1H 0ET

17 Tachwedd, 2021

Annwyl Mr Kwarteng,

Hoffwn ddwyn eich sylw at y cynnig canlynol a fabwysiadwyd yn unfrydol mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Gwynedd:-

“PENDERFYNWYD:-

- Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.**
- Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.”**

Gosododd y cynigydd y cyd-destun i'w gynnig gan olrhain rhywfaint o hanes Dewi Sant, nawddsant Cymru, a'i arwyddocâd i'r Cymry, gan hefyd bwysleisio mai diben y cynnig oedd ceisio adfer rhywfaint o hunan-barch o ran ein arwahanrwydd a'n hunaniaeth fel cenedl.

Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth yn cynnwys:-

- Y cytunid yn llwyr â'r egwyddor, a chefnogid yr alwad i sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel gŵyl banc yng Nghymru.
- Ei bod yn warthus ac yn embaras bod yr hawl i greu gwyliau banc wedi'i roi i Lywodraeth yr Alban ac i Lywodraeth Gogledd Iwerddon, ond nid i Lywodraeth Cymru.
- Ei bod yn sarhad ar y Cymry ers canrifoedd nad oes gennym fel gwlad yr hawl i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Y ddadl o hyd yw'r gost, ond mae gŵyl banc yn hwb anhygoel i economi cefn gwlad.
- Bod dyletswydd ar unrhyw un sy'n byw yng Nghymru i gefnogi ein nawddsant, waeth beth yw eu cefndir a'u traddodiad.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r cynnig hwn fel y gallaf adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Yn gywir,

Y Cyngorydd Simon Glyn
Cadeirydd y Cyngor

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru